



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Trawsnewid y Gwaith o Reoli Oedolion Ifanc yn y Ddalfa

Tachwedd 2013



Trawsnewid y Gwaith o Reoli Oedolion Ifanc yn y Ddalfa

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Tachwedd 2013

© Hawlfraint y Goron 2013

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heblaw logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/> neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle'r ydym wedi nodi deunydd gyda hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn YoungAdults@justice.gsi.gov.uk.

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o www.gov.uk/moj

ISBN: 9780101873321

Argraffwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf
ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi
ID 2596419 11/13

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ddeunydd ffibr wedi'i ailgylchu.

Cynnwys

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn	2
Rhagair Gweinidogol	3
1. Yr Achos Dros Newid	4
2. Y Cynigion Diwygio	8
3. Datblygu Dull Cydlynol	10
Casgliadau	20
Geirdaon	21
Atodiad 1: Crynodeb o'r Data Allweddol ar Oedolion Ifanc yn y Ddalfa	22

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

At: Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn gan staff ac oedolion ifanc mewn Sefydliadau Troseddwr Ifanc, darparwyr gwasanaeth yn y system cyfiawnder troseddol, y farnwriaeth, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, teuluoedd oedolion ifanc yn y ddalfa, a'r rhai eraill i gyd sydd â budd mewn pobl ifanc sy'n y ddalfa. Rydym hefyd yn gwahodd y cyhoedd i ymateb.

Cwestiynau: Gofynnir cwestiynau ynghylch yr Ymgynghoriad ym Mhennod 2 (Y Cynigion Diwygio) a Pennod 3 (Datblygu Dull Cydlynol)

Hyd: O'r 7 Tachwedd hyd at 19 Rhagfyr 2013.

Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) at:

YoungAdults@justice.gsi.gov.uk

Ymgynghoriad Oedolion Ifanc
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
8.19, 102 Petty France
Llundain, SW1H 9AJ

020 3334 5393

Sut i ymateb:

Gellir cyflwyno ymatebion i gwestiynau yr ymgynghoriad ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/young-adults>.

Cynhelir nifer o ddigwyddiadau ymgynghori hefyd. Bydd manylion yr rhain ar gael yn y cyfeiriad gwe uchod.

Gellir cyflwyno ymatebion a chynigion amlinellol i'r manylion cyswllt 'Ymholiadau' uchod.

Y papur ymateb: Bydd ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi:

<http://justice.gov.uk>


Rhagair Gweinidogol

Fel rhan o raglen newid cymdeithasol uchelgeisiol y Llywodraeth bresennol, mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder eisoes wedi cymryd camau sylweddol tuag at ddiwygio'r system cyfiawnder troseddol er mwyn mynd i'r afael ag aildroseddu. Rydym yn trawsnewid sut y rheolwn droseddwyr fel eu bod yn cael eu cosbi pan fyddant yn torri'r gyfraith ac hefyd yn cael mwy o gefnogaeth i roi trefn ar eu bywydau helbulus. Rydym yn awr eisiau sicrhau ein bod yn cymhwysu'r egwyddorion hyn i'r ffordd y rheolwn oedolion ifanc yn y ddalfa.

Fel arfer mae oedolion ifanc (18-20 oed) yn y ddalfa'n cael eu cadw mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn hytrach na mewn carchardai i oedolion. Teimlwn fod y cyd-destun lle arferai hyn fod yn ffordd effeithiol o reoli'r garfan hon wedi newid, a chredwn nad yw'r dull presennol yn briodol nac yn effeithiol mwyach.

Cynigiwn ddull newydd o reoli oedolion ifanc sy'n ystyried sialensau'r grŵp oed hwn ond hefyd yn sicrhau eu bod yn elwa o ddiwygiadau ehangach. Mae llawer o oedolion ifanc yn dal i aeddfedu ac weithiau'n brin o'r sgiliau sydd angenrheidiol i ddelio â sefyllfaoedd cymdeithasol cymhleth. Pan fydd nifer fawr o bobl o'r grŵp oed hwn yn cael eu cadw gyda'i gilydd, medrant droi mor gyfnewidiol fel ei bod yn anodd i'r staff eu rheoli. Os bydd hyn yn parhau, mae yna berygl y bydd profiad oedolion ifanc yn y ddalfa'n ymwneud mwy â'u caethiwo nag â'u hadsefydlu a'u cefnogi i ymwrthod â throsteddu.

Yn ein fframwaith newydd, cynigiwn fod oedolion ifanc yn cael eu cadw mewn sefydliadau cymysg lle byddai'r adnoddau wedi eu targedu at y risgiau a gyflwynir ganddynt ond hefyd at eu hanghenion ailsefydlu ac adsefydlu. Rydym eisiau sicrhau bod eu hamser yn y ddalfa'n ddiogel ac effeithiol ar yr un pryd. Rydym eisiau sicrhau eu bod yn elwa o garchardai adsefydlu a theimlwn, ar gyfer y grŵp yma'n enwedig, y byddai cael eu cefnogi wrth iddynt fynd allan drwy'r gât ac yn ôl i'w cymunedau lleol yn eu helpu i ymwrthod â bywyd o droseddu.



Jeremy Wright
Gweinidog dros Garchardai ac Adsefydlu

1. Yr Achos Dros Newid

1. Ynghyd â'r diwygiadau ehangach yr ydym yn eu cyflwyno i roi cyfleoedd gwell i droseddwr roi ail-gynnig ar ailsefydlu ac adsefydlu ystyrion, rydym wedi bod yn ystyried sut yr ydym yn rheoli oedolion ifanc yn y ddalfa. Mae gennym ninnau hefyd, fel rhai rhanddeiliaid, bryderon ynghylch pa mor effeithiol yw'r system bresennol. Credwn nad yw ein strwythur presennol, sy'n seiliedig ar sefydliadau oed-benodol, yn gallu targedu adnoddau'n briodol. Mae'r adran hon o'r ddogfen yn disgrifio sefyllfa bresennol oedolion ifanc a pham y credwn mai dyma'r amser i bethau newid.

Sefyllfa Bresennol Oedolion Ifanc yn y Ddalfa

2. Ar hyn o bryd mae gwahaniaeth statudol rhwng troseddwr ifanc (rhwng deunaw ac ugain oed) a throeddwr sy'n oedolion (21+ oed). Dan y fframwaith cyfreithiol cyfredol, ni ellir dedfrydu oedolion ifanc i garchar neu ei draddodi i garchar am unrhyw reswm.¹ Yn hytrach mae'r mwyafrif llethol o oedolion ifanc yn cael eu cadw mewn Sefydliadau Troseddwr Ifanc.² O'r oedolion ifanc a gedwir yn y sefydliadau hyn, mae'r rhan fwyaf ond nid pob un, yno dan y ddedfryd droseddol Cadw mewn Sefydliad Troseddwr Ifanc³ (DYOI) neu – yn yr achosion mwyaf difrifol - dan y ddedfryd o garchar am oes⁴.
3. Cyflwynwyd y ddedfryd DYOI yn wreiddiol i gynnig mwy o warchodaeth a chefnogaeth i oedolion ifanc oherwydd eu bod yn dal i aeddfedu. Y prif ddarpariaethau sy'n wahanol i'r dedfrydau a roddir i oedolion hŷn yw bod:
 - Oedolion ifanc yn cael eu dal mewn Sefydliad Troseddwr Ifanc, oni bai fod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyfarwyddo fel arall.
 - Mae oedolion ifanc sy'n cael eu dedfrydu i gadw mewn YOI am gyfnod o lai na 12 mis yn derbyn cyfnod gorfodol o 3 mis o oruchwyliaeth yn y gymuned i roi cefnogaeth ychwanegol iddynt ar ôl gadael y ddalfa. Ymgais oedd hyn i bontio'r bwlch rhwng y ddalfa a gwasanaethau lleol a allai gynnal y broses adsefydlu.
 - Ar gyfer dedfrydau dros 4 wythnos mae cynllun dedfrydu'n cael ei ddatblygu sy'n amlinellu sut fydd y troseddwr yn treulio ei amser yn y Sefydliad Troseddwr Ifanc. Mae'r cynllun dedfrydu'n canolbwyntio ar baratoi'r troseddwr i gael ei ryddhau os oes ganddo / ganddi lai na 3 mis ar ôl yn y Sefydliad.
4. Ers 30 Mehefin 2013, roedd 6,272 o oedolion ifanc (18-20) mewn Sefydliadau Troseddwr Ifanc, 188 ohonynt yn ferched. Ar y pryd roedd 2,831⁵ o oedolion ifanc yn dal i gael eu cadw mewn Sefydliadau un dynodiad (bechgyn i gyd) a 3,270 yn cael eu cadw mewn sefydliadau dynodiad deuol, gan gynnwys yr holl ferched ifanc oedd yn

¹ Mae rhai eithriadau, gweler a.89(2) Deddf Pwerau'r Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 ("PCCSA 2000")

² Mae rhai eithriadau, gweler a.89(2) Deddf Pwerau'r Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 ("PCCSA 2000")

³ O dan a.96 PCCSA 2000

⁴ O dan a.93 ac a.94 PCCSA 2000

⁵ Data o System Rheoli Gwybodaeth NOMIS y Gwasanaeth NOMS.

droseddwyr. Roedd 27 o ddynion ifanc eraill yn cael eu cadw mewn carchardai oedolion am resymau diogelwch ac atal risg. Hefyd, roedd 101 o oedolion ifanc wedi eu cadw mewn Sefydliadau i rai dan 18 oed (fel arfer oherwydd bod penderfyniad wedi'i wneud y dylent aros yno i orffen yr elfen garchar o'u dedfryd) a 43 wedi eu cadw mewn Canolfannau Symud Mewnfudwyr. Ar yr un adeg roedd 492 o bobl ifanc eraill 21-24 oed wedi eu cadw mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc un dynodiad.

5. Ar 30 Mehefin 2013, cyfran yr unigolyn ifanc 18 – 20 oed ym mhoblogaeth carchar oedd 7.5%. Mae'r cyfran hwn wedi lleihau, yn rhannol o ganlyniad i ymdrechion i wro pobl ifanc i ffwrdd o'r system cyfiawnder troseddol.
6. Mae pobl ifanc sy'n dod i'r ddalfa yn tueddol o fod yno oherwydd eu bod wedi cyflawni trosedd mwy difrifol⁶. Yn 2004, roedd 64.8% o'r holl droseddwyr 18-20 oed yn y ddalfa oherwydd troseddau yn erbyn unigolyn, troseddau rhywiol, bwrglera neu ladrad, ond ers hynny mae'r ganran wedi codi i 71.3% o'r holl droseddwyr 18-20 oed erbyn 2013.
7. Mae cyfran uwch o oedolion ifanc ar remand nag oedolion hŷn. Ar 30 Mehefin 2013, roedd dros 20% o unigolion 18 - 20 oed ar remand, mae'n ofynnol dan y gyfraith iddynt gael eu lleoli mewn carchar yn hytrach na Sefydliad Troseddwyr Ifanc.
8. Mae gan oedolion ifanc gyfradd uwch o aildroseddu na oedolion hŷn. Ar sail data wedi'i brofi ar data aildroseddu ar gyfer carcharorion wedi eu rhyddhau yn y 12 mis hyd at fis Medi 2011, mae 56.1% o rai 18-20 oed wedi aildroseddu, o'i gymharu â 45.6% o garcharorion 21+ oed a 46.9% o'r holl garcharorion dros 18 oed.

Y ffactorau dros ddefnyddio Sefydliadau Dynodiad Deuol

9. Mae tuedd gynyddol o fewn yr ystâd garchardai i symud i ffwrdd o sefydliadau un dynodiad lle cedwir dim ond oedolion ifanc (18-20 oed). Yn hytrach, mae oedolion ifanc yn cael eu cadw'n gynyddol mewn sefydliadau sydd wedi eu dynodi fel carchar ac fel Sefydliad Troseddwyr Ifanc, fel bod oedolion ifanc ac oedolion hŷn yn cael eu cadw yn yr un sefydliad (er mewn celloedd ar wahân). Mae oedolion ifanc sy'n ferched eisoes yn cael eu hintegreiddio o fewn yr ystad oedolion, lle mae'r sefydliadau i gyd yn rhai dynodiad deuol.
10. Ym mis Gorffennaf eleni, roedd oedolion ifanc yn cael eu cadw mewn 54 o sefydliadau ac, o'r rhain, dim ond 7 oedd yn rhai un dynodiad i bobl ifanc 18-20 yn unig. Mae'r 47 arall, gan gynnwys pob un o'r 12 sy'n cadw oedolion ifanc sy'n ferched, yn rhai dynodiad deuol fel carchardai a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc. Ar ddiwedd Mehefin 2013, roedd dros hanner yr holl oedolion ifanc, gan gynnwys y merched i gyd, yn cael eu cadw mewn sefydliadau dynodiad deuol.
11. Mae amryw o resymau ymarferol ac economaidd dros ddefnyddio mwy ar sefydliadau dynodiad deuol. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - Llai o oedolion ifanc yn y ddalfa sy'n golygu bod defnyddio dim ond sefydliadau un dynodiad yn cyfyngu'n arw ar ble gellir anfon oedolion ifanc. Byddai mwy o ddewis o sefydliadau'n golygu gallu lleoli oedolion ifanc yn nes at adref

⁶ Ystadegau Rheoli Troseddwyr, Ionawr - Mawrth 2013, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
<https://www.gov.uk/government/publications/offender-management-statistics-quarterly-jan-mar-2013>

- Byddai dewis ehangach yn rhoi mynediad gwell at raglenni ac ymyriadau;
 - Byddai dyrannu dynion ifanc i sefydliadau dynodiad deul yn golygu na fyddai angen eu trosglwyddo i garchardai oedolion ar ôl cyrraedd 21 oed;
 - Mae profiad Llywodraethwyr yn awgrymu bod sefydliadau dynodiad deul yn tueddu i fod yn llai cythryblus na sefydliadau i oedolion ifanc yn unig.
12. Mae'r gyfran uwch o oedolion ifanc yn y ddalfa a gafwyd yn euog o droseddau mwy difrifol hefyd yn codi pryderon ynghylch rheoli, trefn a diogelwch i rai mewn Sefydliadau i fechgyn ifanc yn unig a charcharorion eraill mewn sefydliadau i ddynion. Mae adroddiadau diweddar gan HMIP⁷ wedi lleisio pryderon ynghylch faint o fechgyn ifanc sydd yn y ddalfa a difrifoldeb y trais yn y sefydliadau hyn, yn enwedig pan ganolir hwynt gyda'i gilydd.
13. Mae dynodiad a rôl carchardai'n tueddu i newid i gwrdd â galwadau a sialensau newydd, ac mae hyn wedi parhau dros y misoedd diwethaf. Er enghraifft, i hwyluso gwasgaru oedolion ifanc oedd ar remand yn Llundain, ac yn dilyn cyhoeddi rôl newydd i Feltham ym mis Gorffennaf, cafodd bump o garchardai eraill eu newid yn rhai dynodiad deul i letya oedolion ifanc.

Y Cyd-destun ar gyfer Newid

14. Mae'r cyd-destun y cynigiwn y newidiadau hyn oddi mewn iddo'n cynnwys nodweddion newydd yr oedolion ifanc sydd yn y ddalfa a'r tirlun adsefydlu newydd.
15. Fel yr ydym wedi'i nodi, mae oedolion ifanc yn y ddalfa heddiw'n fwy tebygol o fod yno oherwydd dedfrydau hirach am droseddau mwy difrifol nag o'r blaen, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o fod angen aros yno am hirach. Os cedwir hwynt mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc, gallai fod angen eu symud i garchar oedolion pan fyddant yn 21 oed.
16. Mae'r cyd-destun ar gyfer newid yn cynnwys ein hymrwymiad i fynd i'r afael â rhai o'r materion a godir gan HMIP ac eraill ynghylch yr anawsterau cynhenid sy'n rhaid i lywodraethwyr a staff carchardai ddelio gyda nhw wrth geisio rheoli nifer fawr o oedolion ifanc mewn un lle, gan gynnwys delio gyda thrais a chadw trefn⁸.
17. Fodd bynnag, mae'r ddadl a ddylid cadw oedolion ifanc ar wahân neu'n gymysg ag oedolion hyn wedi bod yn bwnc trafod ers blynnyddoedd lawer. Yn 2006, er enghraifft, roedd Adolygiad Mubarek yn argymhell "*bod y Gwasanaeth Carchardai'n adolygu a yw manteision cadw troseddwyr ifanc ar yr un adain â charcharorion sy'n oedolion yn gorbwyso'r anfanteision ac a ddylid ymestyn yr arfer hwn i sefydliadau eraill*" (Keith et al, 2006). Roedd hefyd yn argymhell "*os yw'r arfer o gadw troseddwyr ifanc ar yr un adain â charcharorion sy'n oedolion i barhau, dylid newid y gyfraith fel nad oes unrhyw gwestiwn ynghylch cyfreithlondeb hyn.*"
18. O dan y cynigion yn *Transforming Rehabilitation: A Strategy for Reform*, o 2015 ymlaen bwriedir i'r ffordd y rheolir troseddwyr cyn ac ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa fod yn gwbl wahanol. Y brif egwyddor sydd wrth wraidd *Transforming Rehabilitation* yw

⁷ Er enghraifft, Adroddiadau gan HMIP ar Lancaster Farms (2011), Brinsford (2012) a Feltham B (2013).

⁸ Er enghraifft, Brinsford HMIP (2012).

sicrhau bod y rhai a gedwir yn y ddalfa'n gallu manteisio ar wasanaethau adsefydlu a pharhad gwirioneddol y gwasanaeth drwy'r gât allan o'r ddalfa ac yn ôl i'r gymuned. I gefnogi'r egwyddor hon, rydym yn ailwampio'r ystad garchardai fel bod adnoddau'n cael eu cysoni'n fwy effeithiol i gwrdd ag anghenion adsefydlu troseddwyr a thargedu grwpiau penodol drwy lwybrau cenedlaethol a rhanbarthol.

19. Mae'r Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys (2000)⁹ yn cynnwys darpariaethau (na ddaethant i rym) a fyddai'n diddymu dedfrydau DYOI a'r ddedfryd o garchar am oes. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi bod yn adolygu'r cwestiwn a ddylid dod â'r darpariaethau hyn i rym neu beidio. Roedd yr adolygiad ffurfiol diwethaf yn 2011.

⁹ a.61 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000

2. Y Cynigion Diwygio

20. Credwn nad yw ein dull presennol o reoli oedolion ifanc, sy'n seiliedig ar sefydliadau oed-benodol, yn gynhwysfawr nac yn gyson ychwaith. Yn hytrach, credwn y byddai'n well canolbwyntio ein hadnoddau ar letya oedolion ifanc fel bod eu hanghenion ailsefydlu ac adsefydlu'n cael eu cwrdd, i gyd-fynd â'n hagenda ddiwygio ehangach. Rydym eisiau'r hyblygrwydd i ddyrannu'r bobl ifanc hyn i'r carchardai ailsefydlu mwyaf priodol er mwyn hwyluso eu dychwelyd yn fwy effeithiol, a gyda chefnogaeth, i'w cymunedau.
21. Rydym yn poeni na allwn gwrdd orau ag anghenion yr oedolion ifanc yn y system sydd ohoni oherwydd bod rhagdybiaeth y dylid cadw oedolion ifanc gyda'i gilydd, pa mor ddifrifol bynnag yw eu trosedd neu eu hanghenion ailsefydlu eraill. Mae oedolion ifanc gyda dedfrydau hir, a gyflawnodd droseddau difrifol ac sydd ag anghenion ailsefydlu mwy hirdymor, yn cael eu cadw'n gymysg ag oedolion ifanc gyda dedfrydau cymharol fyr sydd â mwy o anghenion adsefydlu ac sy'n cyflwyno llai o risg i'r cyhoedd.
22. Rydym hefyd yn cydnabod bod oedolion ifanc yn tueddol o ymddwyn yn fwy treisgar na grwpiau eraill, y tu allan ac o fewn y carchar, a thra maent yn y ddalfa. Maent felly'n cyflwyno sialensau neilltuol er eu bod ond yn cyfrif am tua 7.5% o'r boblogaeth garchardai. Yn 2012 roeddent yn cyfrif am 25.3% o'r holl ymosodwyr yn y ddalfa. Rydym eisiau edrych ar ffyrdd mwy effeithiol o reoli eu diogelwch na'u canoli gyda'i gilydd mewn sefydliadau penodol, a allai waethygu'r broblem.
23. Rydym eisiau datblygu dull newydd sy'n cynnig fframwaith cyson lle gall oedolion ifanc weithio drwy eu dedfryd yn y ddalfa mewn sefydliadau cymysg fel rhan o'r ystad garchardai ehangach i oedolion. Credwn y dylem fod yn dyrannu oedolion ifanc i sefydliad ar sail asesiad o'u risg, eu hanghenion a'u hamgylchiadau, gan gynnwys eu dyrannu i'r carchar ailsefydlu mwyaf addas lle bo hynny'n briodol.
24. Rydym yn rhagweld y byddai hyn yn golygu bod y darpariaethau i ddiddymu'r dedfrydau DYOI a'r ddedfryd o garchar am oes yn dod i rym, fel y gallai oedolion ifanc gael eu dedfrydu i garchar a'u traddodi i garchar. Er hynny nid yw'n golygu ein bod eisiau amddifadu oedolion ifanc o warchodaeth. I'r gwrthwyneb, cynigiwn arallgyfeirio adnoddau o'r sefydliadau dynodedig a thuag at wasanaethau mwy diogel ac effeithiol a fyddai'n gwarchod mwy ar oedolion ifanc lle bynnag y byddent wedi eu cadw'n ôl eu hanghenion a'r risg a gyflwynir ganddynt.
25. Weithiau mae gan oedolion iau wahanol anghenion a galluoedd nag oedolion hŷn, ac rydym eisiau sicrhau bod y staff yn y sefydliadau oedolion i gyd yn deall ac yn ymateb yn effeithiol yn yr achosion hyn. Yn benodol, rydym eisiau ystyried anghenion arbennig oedolion ifanc sy'n trosglwyddo o'r ystad ddiogel i rai dan 18 oed.

26. Byddai unrhyw bolisi newydd yn berthnasol i oedolion ifanc i gyd. Fodd bynnag, gwyddom fod gan droseddwr sy'n ferched wahanol risg ac anghenion. Mae merched yn cyfrif am 3.0% o rai rhwng 18-20 oed yn y ddalfa, ac am 5.0% o'r boblogaeth oedolion gyfan sydd yn y carchar. Mae'r ystad garchardai i ferched hefyd wedi'i strwythuro'n wahanol, yn rhannol oherwydd bod y nifer sylweddol is yn golygu bod angen llai o sefydliadau. Mae merched ifanc eisoes yn cael eu cyd-leoli â merched hŷn. Gall fod gwahaniaeth hefyd o ran natur y trais, a'r ffactorau sy'n achosi trais ymhlith merched ifanc yn y carchar, o'i gymharu â dynion ifanc. O ganlyniad, mae peth o'r drafodaeth yn y papur hwn yn canolbwyntio ar ddynion yn hytrach nag ar ferched ifanc.
27. Mae cynlluniau o dan *Transforming Rehabilitation* i ymestyn goruchwyliaeth statudol yn y gymuned i bob troseddwr a ddedfrydir i lai na 12 mis yn y ddalfa'n golygu ein bod yn disgwyl i'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer oedolion ifanc newid. Disgwylir iddynt gael mwy o oruchwyliaeth nag o dan ddarpariaethau'r ddedfryd Cadw mewn Sefydliad Troseddwr Ifanc (DYOI) Mae'r darpariaethau gwell hyn hefyd yn golygu ei bod yn amser da i ni adolygu sut y rheolwn oedolion ifanc.
28. Cynigiwn y gallwn gwrdd yn well ag anghenion oedolion ifanc drwy dargedu'r adnoddau at risg ac angen, gan olygu y bydd dynion ifanc, fel merched ifanc, yn cael eu cadw'n gymysg mewn sefydliadau i oedolion.

Cwestiwn 1: Cynigiwn fod ein polisi newydd yn cadw oedolion ifanc mewn sefydliadau cymysg gydag oedolion eraill a'n bod yn targedu adnoddau at geisio cwrdd ag anghenion oedolion ifanc a'r risg a gyflwynir ganddynt yn y sefydliadau hyn i gyd. A ydych yn cytuno?

3. Datblygu Dull Cydlynol

29. Rydym eisiau sicrhau bod oedolion ifanc yn ddiogel yn y ddalfa ac eisiau cwrdd â'u hanghenion a'u helpu i adsefydlu'n fwy effeithiol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai'r amcanion hyn dynnu'n groes i'w gilydd. Disgrifiwn isod rai o'r tensiynau y mae angen i ni geisio eu cysoni. Mae angen i ni ganfod ffordd o ddatrys y tensiynau hyn o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael. Mae angen i ni hefyd geisio taro cydbwysedd rhwng cwrdd orau ag anghenion oedolion ifanc, a'r effaith negyddol bosibl ar ganlyniadau i droseddwy'r hyn a grwpiau agored i niwed eraill.

Ymateb i Anghenion a'r Risg a Gyflwynir gan Oedolion Ifanc

30. Wrth ddylunio polisi ar gyfer rheoli oedolion ifanc yn y ddalfa, rydym eisiau ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar eu hanghenion a'u nodweddion.
31. Mae'r term 'oedolyn ifanc' yn tueddu i gael ei ddiffinio'n eithaf llac mewn cymdeithas yn gyffredinol (er enghraifft, gall ddod o fewn paramedrau 18-21 neu 18-24 oed), ac mae hyn wir hefyd mewn ymchwil gymdeithasol. Dyma'n rhannol pam nad oes llawer o wybodaeth systematig am beth sy'n gweithio i leihau aildroseddu o fewn y grŵp hwn, ac mae'r dystiolaeth fel arfer wedi'i gwreiddio mewn astudiaethau lle na wahaniaethir yn gyson rhwng 'oedolion ifanc' a grwpiau oed eraill.
32. Nid yw oedolion ifanc yn grŵp unffurf. Gall anghenion rhai oedolion ifanc weithiau fod yn debyg ac weithiau'n wahanol i anghenion pobl ifanc ac oedolion hŷn, a gallai'r bwlch mewn aeddfedrwydd fod yn arbennig o fawr o fewn y garfan hon. Gallai ffactorau seiliedig ar rywedd sy'n gysylltiedig â'u troseddu hefyd fod yn wahanol.
33. Yn ôl arolwg Lleihau Troseddu Arolygu Carcharorion (SPCR) y Weinyddiaeth Cyfiawnder, gan amlaf mae gan oedolion iau a hŷn batrymau anghenion tebyg (Stewart 2008). Mae hwn yn bwynt pwysig wrth ystyried mynediad at wasanaethau perthnasol. Mae'r naw ffactor ymatal a ddisgrifir yn *Transforming Rehabilitation: a summary of evidence on reducing re-offending*, fel cyflogaeth, teulu a pherthnasoedd, ynghyd â sobrwydd (y Weinyddiaeth Cyfiawnder 2013) yn bwysig i droseddwy'r iau a hŷn fel ei gilydd.
34. Fodd bynnag, mae rhai meysydd penodol lle mae gan oedolion ifanc wahanol risgiau ac anghenion. Er enghraifft, mae rhai meysydd lle mae'n ymddangos bod gan oedolion ifanc lai o anghenion, yn enwedig o ran gofal iechyd a llety ar ôl eu rhyddhau. Fodd bynnag, yn aml iawn mae oedolion ifanc angen mwy o gymorth gyda llythrennedd a chael cymwysterau.
35. Ymddengys hefyd fod gan oedolion ifanc batrymau gwahanol i oedolion hŷn o ran defnyddio cyffuriau. Awgrymodd astudiaeth SPCR y Weinyddiaeth Cyfiawnder er bod y mwyafrif o droseddwy'r ifanc wedi cymryd cyffuriau, eu bod yn defnyddio cyffuriau gwahanol i oedolion hŷn a bod eu defnydd yn ymddangos i fod yn llai difrifol (e.e. mae llai ohonynt yn chwistrellu cyffuriau ac roedd llai ohonynt wedi defnyddio cyffuriau yn y pedair wythnos cyn cael eu carcharu) (Stewart 2008). Canabis yw'r prif gyffur sy'n well gan oedolion ifanc ei ddefnyddio. Efallai hefyd fod angen ystyried y gwahanol batrymau defnydd posibl ymhlith merched ifanc sy'n troseddu.

36. Mae darganfyddiadau'r arolwg SPCR hefyd yn awgrymu rhai gwahanol batrymau o ran yfed alcohol rhwng oedolion iau a hŷn. Mae oedolion ifanc yn fwy tebygol o or-yfed mewn hyrddiau nag o fod yn ddibynnol ar alcohol. Er y dywedodd fwy o oedolion ifanc na rhai hŷn eu bod yn yfed yn drwm, roeddent yn tueddu i yfed yn wythnosol yn hytrach na'n ddyddiol (Stewart 2008).
37. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pwysigrwydd cymharol y gwahanol ffactorau risg a gwarchodol yn newid gydag oed. Yn achos troseddwr o dan 18 oed, mae teulu cefnogol yn ffactor gwarchodol pwysig, a chafwyd bod ymyriadau sy'n cryfhau cysylltiadau teuluol yn lleihau aildroseddu. Fodd bynnag, erbyn 18 oed mae dylanwad cyfoedion yn gryfach a bydd rhai troseddwr ifanc yn aml wedi eu dal mewn ffordd o fyw a chylchoedd troseddol sy'n gallu caledu agweddau troseddol. Mae agweddau troseddol, sgiliau datrys problemau gwael ac ymddygiad ymosodol yn nodweddion clir mewn dynion ifanc sy'n troseddu, felly ystyrir bod ymyriadau sy'n targedu'r clwstwr hwn o ffactorau risg yn hollbwysig (e.e. Van der Put et al 2012).
38. Wrth ystyried anghenion oedolion ifanc, mae hefyd angen i ni gofio bod y garfan oed yma'n dal i aeddfedu a beth mae hyn yn ei feddwl o ran ymatebolrwydd. Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw oedolion ifanc yn aeddfedu'n llawn tan nes ymlaen yn eu hugeiniau'n aml. Mae datblygiadau gyda thechnegau fel niwro-ddelweddu a delweddu MRI wedi helpu i ddangos bod yr ymennydd yn dal i aeddfedu a newid o leiaf tan ganol yr ugeiniau (e.e. Asato et al, 2010; Luna et al 2004), gyda merched yn aeddfedu'n gynt na dynion. Ymddengys nad yw strwythurau a chysylltiadau ymenyddol, sy'n gysylltiedig yn enwedig â chael mwy o reolaeth wybyddol dros ymddygiad, yn aeddfedu tan flynyddoedd ola'r glasoed a dechrau tyfu'n oedolyn. Mae deall natur anaeddfedrwydd, a'i gysylltiad ag ymddygiad byrbwyll a throseddol, yn bwysig i'r bobl sy'n gweithio gyda'r oedolion ifanc hyn.
39. Felly'n fyr, nid yw bob amser yn hawdd gwahaniaethu rhwng anghenion oedolion iau ac oedolion hŷn, yn enwedig ymhlith y boblogaeth droseddu amrywiol. Mewn nifer o ffyrdd, mae eu hanghenion yn debyg i rai oedolion hŷn ac maent yn ymateb i driniaethau tebyg. Fodd bynnag, gwyddom fod rhai meysydd yn enwedig lle gallai fod gwahaniaethau, ac mae angen i ni ddeall yn well sut orau i gwrdd â'r anghenion hyn.

Cwestiwn 2: O ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, pa ffactorau eraill yn ymwneud â risg, anghenion ac amgylchiadau, gan gynnwys oed, ddylen ni fod yn eu hystyried wrth edrych ar sut y rheolwn oedolion ifanc mewn carchardai cymysg o ran oed?

Categoreiddio a Dyrannu

40. Ar hyn o bryd mae oedolion ifanc 18-20 oed yn cael eu categoreiddio a'u dal mewn un o bedwar categori diogelwch (Categori A (dynion yn unig), Statws Cyfyngedig, Amodau Caeedig neu Amodau Agored¹⁰), ar sail asesiad o'u risg o ddianc neu redeg i ffwrdd, y risg o niwed i'r cyhoedd pe byddent yn dianc neu'n rhedeg i ffwrdd, ac unrhyw broblemau rheoli a allai effeithio ar ddiogelwch a threfn y carchar a diogelwch

¹⁰ Gweler Cyfarwyddyd 41/2011 y Gwasanaeth Carchardai

y rhai o fewn iddo. Mae adroddiadau llys a phrawf, y drosedd neu'r troseddau presennol, hyd y ddedfryd a'r hanes troseddu i gyd yn dylanwadu ar y penderfyniad categoreiddio. Ar hyn o bryd, mae'r mwyafrif llethol o oedolion ifanc wedi eu dyrannu i Amodau Caeedig neu Amodau Agored.

41. Ar hyn o bryd, mae unigolion 18-20 oed a gyflawnodd droseddau difrifol yn cael eu cadw'n gymysg ag oedolion ifanc sydd yn y ddalfa am droseddau llai difrifol. Wedi cyrraedd 21 oed, mae'r oedolion ifanc hyn fel arfer yn cael eu trosglwyddo i garchar oedolion.
42. Credwn y byddai'n fwy effeithiol, pan wneir y penderfyniad i ba sefydliad i ddyrannu oedolyn ifanc iddo, bod y penderfyniad yn seiliedig ar hyd y ddedfryd, eu hasesiad risg a'u hanghenion adsefydlu. Credwn hyn am dri rheswm yn bennaf: fel na fyddai angen symud o un sefydliad i'r llall a allai aflonyddu adsefydlu, i wella'r broses adsefydlu a chefnogi ymdrechion i aros yn nes at adref, ac i hybu perthnasoedd cadarnhaol a diogel rhwng cyfoedion.
43. Byddai ein dull newydd yn golygu na fyddai raid i droseddwyr symud ar ôl cyrraedd 21 oed. Yn hytrach allem ddyrannu troseddwyr i sefydliadau sy'n cynnig ymyriadau sy'n briodol i hyd eu dedfryd. Byddai oedolion ifanc gyda dedfrydau hir yn gallu ymgysylltu'n well ag adsefydlu, hyfforddiant a datblygiad mwy hirdymor o ddechrau eu dedfryd.
44. O dan ein cynigion i drawsnewid adsefydlu, bydd dynion sy'n troseddu'n cael eu categoreiddio ac yna'n cael eu dyrannu i garchar priodol o fewn y categori hwnnw ar sail cyfuniad o'u hanghenion adsefydlu, ardal eu cartref a hyd eu dedfryd (bydd pob carchar i ferched yn dod yn garchar ailsefydlu). Bydd y rhan fwyaf o'r rhai gyda dedfrydau o lai na 12 mis yn cael eu dyrannu'n uniongyrchol i garchar adsefydlu lleol ar gyfer eu dedfryd gyfan. Bydd y rhan fwyaf o'r rhai gyda dedfrydau o rhwng 12 mis a phedair blynedd yn cael eu trosglwyddo i garchar hyfforddi ailsefydlu categori C lle bo hynny'n briodol. Bydd y carchar y byddent yn cael eu dyrannu iddo'n garchar adsefydlu o fewn ardal eu cartref. Byddai hyn yn hwyluso gwasanaethau mwy effeithiol ar ôl gadael y carchar fel y medrant drosglwyddo'n haws i'w cyfnod o oruchwyliaeth yn y gymuned. Byddai'r carcharorion gyda dedfrydau o fwy na phedair blynedd yn cael eu symud i Garchar Hyfforddi addas a fyddai'n gallu rhoi mwy o sylw i'w hymddygiad troseddol, cyn treulio o leiaf tri mis mewn carchar adsefydlu cyn eu rhyddhau.
45. Credwn y dylai'r dull hwn fod yn berthnasol i oedolion ifanc fel ag i unrhyw oedolyn arall. Rydym yn poeni y gallai cyfyngu ar hyblygrwydd y mynediad at wasanaethau adsefydlu rwystro gwelliannau y byddem yn ei wneud i adsefydlu oedolion ifanc. Un o egwyddorion allweddol y Rhaglen Trawsnewid Adsefydlu yw bod troseddwyr sy'n cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau'n cael eu cadw'n agos at adref, ac y darperir cefnogaeth i ailsefydlu gan ddarparwyr sy'n gyfarwydd â'r gwasanaethau yn yr ardal y rhyddheir hwynt iddi. Mae hyn yn rhywbeth a allai fod yn arbennig o berthnasol i oedolion ifanc, oherwydd mae gan lawer ohonynt gysylltiadau cryf o hyd gyda'u rhieni a'u teuluoedd, a rhai gyda theuluoedd ifanc eu hunain. Mae'n haws gwneud hyn os oes digon o hyblygrwydd i sicrhau bod oedolion ifanc wedi eu lleoli'n nes at adref.

Cydbwysu'r Manteision a'r Risg o Gymysgu

46. Credwn y gallem hybu cysylltiadau cadarnhaol a diogel rhwng cyfoedion yn well drwy gadw oedolion ifanc a gyflawnodd droseddau difrifol, a phwy sy'n cael eu hystyried i

fod yn risg i eraill, mewn sefydliadau gydag oedolion hŷn sydd â phroffil tebyg lle mae trefniadau diogelwch mwy priodol i warchod y cyhoedd. Dylid cadw oedolion ifanc sy'n cyflwyno risg isel yn gymysg â throeddwy'r eraill o risg isel.

47. Mae'r farn a phrofiad hefyd yn gymysg o ran i ba raddau y gallai troeddwy'r hŷn gael dylanwad cadarnhaol neu negyddol ar droeddwy'r iau. Gwyddom fod llawer iawn o bryder wedi'i leisio ynghylch cymysgu oedolion iau gydag oedolion hŷn gan greu 'Prifysgolion Troeddu'. Er nad oes tystiolaeth bendant i gefnogi hyn, mae'r pryderon yn parhau i gael eu lleisio ynghylch y problemau posibl o gymysgu. Er enghraifft, lleisiodd adroddiad diweddar gan yr IMB ar Garchar / Sefydliad Troeddwy'r Ifanc Portland (2013) bryder bod mwy o gyffuriau'n dod i mewn i'r carchar unwaith i oedolion hŷn gael eu cyflwyno iddo.
48. Ar y llaw arall, mae adroddiadau eraill wedi awgrymu bod gwahanu oedolion ifanc i sefydliadau lle canolir rhai 18-20 oed yn creu ei broblemau ei hun (e.e. adroddiad HMIP ar Feltham 2013). Teimlwn ei bod yn arbennig o ddi-fudd pan fydd oedolion ifanc risg isel gyda dedfrydau byr (neu'n wir sy'n cael eu cadw ar remand diogel yn y ddalfa) yn cael eu cymysgu ag oedolion ifanc a allai fod yn dreisgar ac a gyflawnodd droeddau difrifol.
49. Mae llywodraethwyr a staff carchardai'n dweud wrthym pan gymysgir oedolion iau ag oedolion hŷn bod llai o drais ymhlith y garfan oed hon, a bod y sefydliad yn tawelu. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae'r dystiolaeth yn awgrymu pan fydd carcharorion yn teimlo'n fwy diogel maent yn fwy tebygol o gyfrannu at weithgareddau ailsefydlu ac yn fwy brwd ynghylch newid eu bywydau er gwell.

Cwestiwn 3: Sut ydym yn dyrannu oedolion ifanc i sefydliadau yn ystad oedolion i sicrhau dedfryd o garchar diogel ac effeithiol, ac ailsefydlu i mewn i'r gymuned?

Trais (gan gynnwys trais gangiau)

50. Wrth ddatblygu dull cydlynol o reoli oedolion ifanc yn y ddalfa, rydym eisiau sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r cyfle i leihau lefelau trais yn gyffredinol o fewn y grŵp hwn (yn enwedig dynion ifanc) ac am sicrhau bod y dull hwn yn gyson â'r rhaglen trawslywodraeth ehangach i Ddileu Trais Pobl Ifanc a Thrais Gangiau. Er eu bod ond yn cyfrif am gyfran fach o'r boblogaeth garchardai (7.5% ar 30 Mehefin 2013) medrant fod yn anodd eu rheoli. Yn 2012, roedd oedolion ifanc 18-20 yn cyfrif am 25.3% o ymosodwyr (rhai sy'n cychwyn ymosodiad), 30.4% o gwffwyr (sy'n cychwyn neu'n ymuno mewn cwffio) a 21.6% o ddiodefwyr ymosodiadau yn y carchar¹¹.

¹¹ Ni ellir gwahaniaethu pob tro rhwng y rôl y mae carcharorion yn ei chwarae mewn ymosodiadau. Weithiau, mae'n amlwg pa garcharorion yw'r ymosodwyr a pha rai yw'r diodefwyr, dro arall nid yw hyn yn glir. Yn achos y diodefwyr, medrant gael eu hadnabod fel 'cwffwyr'. Penderfynir y rolau ar ôl cynnal ymchwiliad lleol i'r digwyddiad. Am ragor o wybodaeth Ystadegau Diogelwch yn y Ddalfa, gweler diweddariad Diogelwch yn y Ddalfa bob chwarter hyd at 31 Mawrth 2013, y Weinyddiaeth Cyfiawnder 2013 <https://www.gov.uk/government/publications/safety-in-custody-statistics>

51. Gwyddom fod oedolion ifanc yn fwy tueddol o gael eu dylanwadu gan eu cyfoedion, a bod cystadlu chwyrn a theyrngarwch yn y gymuned yn gallu troi'n gystadlu chwyrn o fewn y carchar. Byddai cynyddu'r nifer o garchardai sy'n cadw oedolion ifanc yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ni o ran lle i'w lleoli. Byddai'n golygu y gallem leoli oedolion ifanc yn nes at adref lle byddai hynny er mantais i'w hadsefydlu, neu mewn lleoliad arall lle gallai hyn eu helpu i gefnu ar eu cysylltiadau â grwpiau gwrthgymdeithasol a chanolbwyntio mwy ar ymatal. Byddai mwy o hyblygrwydd o ran lleoli hefyd yn helpu i ddarparu cyfundrefnau diogel, lle byddai'n haws gwasgaru gwahanol grwpiau.
52. Rydym yn ymrwymedig i ystyried opsiynau i barhau i wella sut y rheolir trais, gan gynnwys trais gangiau, yn y carchar er mwyn cadw'r staff a'r carcharorion yn ddiogel. Mae'r Gwasanaeth Rheoli Troseddwr Cenedlaethol (NOMS) wrthi'n adolygu sut y rheolir trais er mwyn nodi pa ffactorau sy'n dylanwadu ar hyn ac arferion gorau ar draws yr ystad. Bydd polisi a chanllawiau newydd yn cael eu gweithredu yn 2014/15 gyda'r nod o leihau nifer yr ymosodiadau fel bod carchardai'n fwy diogel i bawb. Oherwydd y credwn fod oedolion ifanc yn fwy treisgar na grwpiau oedolion eraill – ac yn wir yn fwy tebygol o fod yn y ddalfa am drosedd difrifol nag oedolion hŷn – rydym yn arbennig o awyddus i sicrhau eu bod yn elwa o'n cynlluniau newydd.
53. I garchardai, gall gangiau gyflwyno problemau rheoli sylweddol. Yn benodol, mae sialensau sylweddol o ran deall faint o ran y mae unigolyn yn ei chwarae mewn grŵp cyfoedion neu gang, ac i ba raddau y gall deinameg a theyrngarwch yn y gymuned newid yn y carchar wrth i ddeinameg y grŵp newid. Gallai ymestyn hyblygrwydd NOMS i gymysgu oedolion ifanc ag oedolion hŷn a chynyddu nifer y sefydliadau a allai gadw oedolion ifanc helpu i lastwreiddio deinameg y gang a fyddai wedi'i ganoli mewn un lle a helpu'r sefydliad i reoli trais.

Cwestiwn 4: A oes ffyrdd eraill y dylem fod yn eu hystyried o fynd i'r afael â'r agweddau cadarnhaol a negyddol ar gysylltiadau rhwng cyfoedion yn y ddalfa?

Amgylchedd Mwy Diogel

54. Rydym hefyd wedi bod yn ystyried beth fyddai'r effaith ar ddiogelwch a lles oedolion ifanc pe byddent yn cymysgu ag oedolion hŷn. Mae nifer fawr o unigolion sydd mewn perygl o gael niwed ar draws y boblogaeth garchardai ac sydd, beth bynnag yw eu hoed, wedi cael profiadau bywyd negyddol, wedi dioddef anfantais, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol a / neu sydd â phroblemau iechyd meddwl. Gwyddom fod cyfraddau hunan-niwed yn uwch mewn oedolion ifanc¹² ac, yn 2012, roedd 16.3% o'r unigolion a gyflawnodd hunan-niwed yn y ddalfa rhwng 18-20 oed. Gwyddom, ymhlith y merched ifanc sy'n hunan-niweidio, eu bod yn llawer mwy tebygol o ail-adrodd yr ymddygiad.

¹² Am ragor o wybodaeth Ystadegau Diogelwch yn y Ddalfa, gweler diweddariad Diogelwch yn y Ddalfa bob chwarter hyd at 31 Mawrth 2013, y Weinyddiaeth Cyfiawnder 2013 <https://www.gov.uk/government/publications/safety-in-custody-statistics>

55. Fodd bynnag mae ystod y problemau a'r materion sy'n berthnasol i garcharorion yn sylweddol a heb eu cyfyngu i unrhyw segment arbennig o'r boblogaeth. Rhaid i bob carchar gael gweithdrefnau yn eu lle i adnabod, rheoli a chefnogi pobl sydd mewn perygl o achosi niwed iddyn nhw eu hunain, neu i eraill. Rydym yn ymrwymedig i wella'r arweiniad, yr hyfforddiant a'r gweithdrefnau i'r holl staff sy'n delio ag unigolion agored i niwed. Credwn y dylai adnoddau sy'n targedu pobl mewn perygl yn y ddalfa ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion unigol, yn hytrach nag y bo'r ffocws ar grwpiau oed penodol.
56. Un o'r prif feysydd pryder i randdeiliaid yw patrymau defnyddio cyffuriau pan fydd oedolion ifanc a hŷn yn cymysgu. Rydym yn cydnabod eu bod yn bryderon dilys. Mae oedolion ifanc yn tueddu i fod yn llai tebygol o gymryd cyffuriau caled, fel cocên a heroin, yn gyson, a hoffem weld beth allwn ei wneud i sicrhau eu bod yn llai tebygol o ddatblygu'r arferion hyn.
57. Mae NOMS eisoes yn gwneud llawer iawn o waith i ddelio â phroblemau cymryd cyffuriau yn y ddalfa. Er enghraifft, ers Ebrill 2011 mae un-ar-ddeg o safleoedd peilot wedi bod yn gweithio ag adrannau'r llywodraeth ganolog i ddylunio a gweithredu modelau ar gyfer adeiniau adferiad cyffuriau (DRW) sy'n cymell ymatal a chanolbwyntio ar adferiad. Un o nodweddion allweddol yr adeiniau DRW yw annog mwy o garcharorion sydd wedi cael adferiad o broblemau cyffuriau ac alcohol i ddo yn fentoriaid neu'n 'Bencampwyr Adferiad' i gynnig cymorth a sbarduno rhai sy'n newydd i'r cysyniad o DRW a rhai sy'n gweithio tuag at adferiad.
58. Er bod rhai yn y gorffennol yn teimlo ei bod yn amhriodol cymysgu carcharorion iau gyda charcharorion hŷn sydd â phatrymau ymddygiad a dibyniaeth mwy di-ildio, mae peth tystiolaeth anecdotaidd o'r adeiniau DRW yn awgrymu pan oedd oedolion ifanc yn cymysgu ag oedolion hŷn ar yr adain, bod y rhai iau'n gweld hyn fel rhywbeth defnyddiol oherwydd eu bod yn gallu rhannu eu profiadau o oresgyn dibyniaeth. Roeddent yn awgrymu ei fod yn helpu i'w hysgogi i gyfrannu at driniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau adferiad.
59. Rydym eisiau dysgu o'r enghreifftiau hyn i ddatblygu'r gwaith a wnawn i gefnogi oedolion ifanc i ymatal rhag datblygu arferion sy'n eu gwneud yn ddibynnol ar gyffuriau ac alcohol ond mae gennym hefyd ddiddordeb mewn dysgu o wybodaeth rhanddeiliaid sy'n brofiadol yn y maes hwn.

Cwestiwn 5: Yng nghyd-destun ein dull newydd arfaethedig, pa fesurau ychwanegol penodol allwn ni eu cymryd, gan gynnwys sut allwn ni ddelio gyda phroblemau cyffuriau fel bod profiad oedolion ifanc o'r ddalfa'n ddiogel a'u bod, o ganlyniad, yn gallu canolbwyntio ar ailsefydlu a newid?

Trosglwyddo

60. Ym mis Hydref 2012 cyhoeddodd y Gyd-Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Adroddiad Thematig ar Drosglwyddo. Roedd yr adroddiad yn nodi, er y dystiolaeth o arferion da, bod gormod o anghysondebau a bod angen mwy o ymdeimlad o bwrpas ar waith

pontio'n gyffredinol. Yn aml iawn nid oedd oedolion ifanc oedd yn trosglwyddo yn y ddalfa'n gwbl barod am fywyd mewn sefydliad oedolion.

61. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cydnabod y gallai trosglwyddo rhwng sefydliadau pobl ifanc ac oedolion fod yn bwynt agored i niwed i lawer o oedolion ifanc. I rai sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol o dan 18 oed, rydym wedi sicrhau ein bod yn darparu'r lefel o gymorth sydd ei hangen arnynt i ddelio ag ystod o broblemau yn eu bywydau a allai fod yn gysylltiedig â'u hymddygiad troseddol. Er bod y lefel yma o gymorth yn briodol pan fyddant o dan 18 oed, mae angen i oedolion ifanc addasu i'r lefel fwy o awtonomi y disgwylir ohonynt ar ôl tyfu'n oedolyn. Cyn ac ar ôl trosglwyddo i wasanaethau oedolion, rydym eisiau cefnogi oedolion ifanc i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt fel oedolion annibynnol.
62. Rydym eisoes wedi gwella a datblygu prosesau i ddelio â phobl ifanc deunaw oed sy'n trosglwyddo rhwng gwasanaethau. Ym mis Medi 2012, cyhoeddodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (YJB) y Fframwaith Trosglwyddo sy'n rhoi canllawiau clir i rai sy'n gweithio ag oedolion ifanc sy'n trosglwyddo o Dimau Troseddwyr Ifanc (YOT) i wasanaethau prawf. Ar yr un pryd, cyhoeddodd NOMS y Protocol Trosglwyddo i roi canllawiau tebyg i rai sy'n gweithio mewn carchardai. Y llynedd sefydlodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid y Fforwm Trosglwyddo sy'n cael ei gyd-gadeirio gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, NOMS a'r Grŵp Cyfiawnder Troseddol. Mae'r Fforwm wedi bod yn gweithio i ddatblygu cysylltiadau a phrosesau, nid yn unig rhwng y Bwrdd a NOMS, ond gydag adrannau perthnasol eraill o fewn y llywodraeth.
63. Gan adeiladu ar y gwaith hwn, cynigiwn gyflwyno polisi newydd i nodi'n glir beth ydym yn ei ddisgwyl gan sefydliadau sy'n derbyn oedolion ifanc o'r ystad pobl ifanc, fel eu bod yn fwy parod i ymdopi â'r newid cyfundrefn a'r newid cymorth. Mae NOMS eisoes wedi bod yn cydweithio â staff sy'n rheoli oedolion ifanc i'w helpu i ymddwyn fel modelau rôl, ac mae rhai staff wedi sylwi bod perthynas fentora debyg yn datblygu rhwng oedolion iau a hŷn pan fydd y grwpiau hyn yn cymysgu. Wrth i ni symud ymlaen gyda'n cynlluniau i drawsnewid y profiad o garchar i bobl ifanc a rhoi addysg wrth galon y ddalfa, byddwn yn sicrhau bod sefydliadau carchar i rai dan 18 oed yn gwneud eu rhan mewn paratoi pobl ifanc i drosglwyddo i'r ystad oedolion.
64. Yn ogystal, rydym eisiau i'n polisi newydd sicrhau na fydd oedolion ifanc yn wynebu pwynt trosglwyddo arall yn 21 oed, oherwydd eu bod eisoes yn rhan o ystad oedolion ehangach.

Cwestiwn 6: Beth arall allwn ni ei wneud i helpu oedolion ifanc drosglwyddo'n effeithiol o'r ystad ieuencid, a sicrhau cymorth parhaus a mynediad at wasanaethau priodol iddynt?

Cwestiwn 7: Pa sgiliau a phrofiadau penodol ydych yn meddwl y dylen ni helpu'r staff sy'n gweithio ag oedolion ifanc i'w datblygu?

Oedolion Ifanc ar Remand Diogel

65. O dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1948,¹³ dylai oedolion ifanc rhwng 18 ac 20 oed sydd ar remand diogel gael eu cadw mewn carchar. Unwaith y dedfrydir hwynt, rhaid eu symud i Sefydliad Troseddwyd Ifanc. Byddem yn hoffi rheoli pob oedolyn ifanc mewn ffordd gyson a chydlynol p'un ai ydynt ar remand neu wedi cael eu dedfrydu.
66. Yn ôl ein profiad, mae carcharorion yn wynebu mwy o risg ar ddechrau eu cyfnod yn y carchar, sydd wrth ddiffiniad yn cynnwys eu hamser ar remand diogel (lle bo hynny'n berthnasol). Mae oedolion ifanc ar remand diogel yn aml yn teimlo'n ddigyswllt o fywyd y sefydliad a heb fawr o gymhelliad i gyfrannu at weithgareddau yn ystod y dydd.
67. Credwn y byddai oedolion ifanc yn fwy tebygol o ymgysylltu â'r gyfundrefn pe byddent yn cael eu cadw yn yr un sefydliad lle byddent yn debygol o dreulio eu dedfryd. O dan y cynigion *Transforming Rehabilitation*, bwriedir i hyn ddigwydd ar gyfer y troseddwyd hynny gyda dedfrydau tymor byr, ac os felly byddem yn hoffi pe bai'r oedolion ifanc hefyd yn gallu elwa o'r newidiadau hyn.

Cwestiwn 8: A oes unrhyw feysydd penodol y dylem eu hystyried ar gyfer oedolion ifanc ar remand diogel?

BAME, Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Grwpiau Agored i Niwed

68. Mae oedolion ifanc yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr yn grŵp mwy amrywiol nag unrhyw grwpiau eraill o oedolion yn y ddalfa. Mae 33.3% o'r oedolion ifanc (18-20) yn y ddalfa'n dod o grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) neu ethnigrwydd gymysg, o'i gymharu â 25.6% o oedolion 18+ oed.
69. Mae amrywiaeth hefyd o ran eu hanghenion a'r agweddau arbennig ar eu statws agored i niwed. Er enghraifft, mae llawer o rai sy'n Gadael Gofal o fewn y grŵp oedolion ifanc yn y ddalfa. Mae'r SPCR yn dangos bod 23.6% o ddynion a 31.3% o ferched yn y ddalfa wedi bod mewn gofal ar ryw bwynt yn ystod eu plentyndod. Roedd y rhai a fu mewn gofal yn tueddu i fod yn iau pan gawsant eu harestio gyntaf ac yn fwy tebygol o'u cael yn euog eto yn y flwyddyn ar ôl eu rhyddhau na rhai na fuont erioed mewn gofal (Williams, Papadopoulou & Booth, 2012).

Cwestiwn 9: Sut allwn ystyried anghenion grwpiau gyda nodweddion gwarchoddedig yn y ffordd fwyaf effeithiol? Cofiwch anfon unrhyw enghreifftiau, astudiaethau achos, ymchwil neu fathau eraill o dystiolaeth atom i gefnogi eich barn.

¹³ a.27. Gweler hefyd a.43 Deddf Carchardai 1952.

Troseddwyr Ifanc sy'n Ferched

70. Ar 30 Mehefin 2013 roedd 188 o ferched rhwng 18-20 yn droseddwyr yn yr ystad ferched. Mae pob un o'r 12 o garchardai merched yn rhai dynodiad deuol fel carchardai a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc. Er ein bod yn awyddus i gael mwy o sefydliadau lle gellir anfon oedolion ifanc iddynt, dim ond i fechgyn ifanc y mae hyn yn berthnasol oherwydd, ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl gwneud hynny o fewn yr ystad ferched fel y mae. Y rheswm am hyn yw bod nifer llawer llai o ferched sy'n droseddwyr.
71. Ar 25 Hydref 2013 cyhoeddwyd y bydd pob carchar merched yn dod yn garchar ailsefydlu, ac y byddai pob carchar yn darparu cyfleoedd cyflogaeth gwell i ferched sy'n droseddwyr risg isel priodol, ynghyd â mynediad at ymyriadau ac aros yn nes at adref ar yr un pryd. Disgwylir i hyn fod o fudd i ferched sy'n oedolion ifanc ac yn oedolion hŷn.
72. Rheolir merched ifanc o fewn yr ystad ar sail asesu'r risg o niwed, pa mor debygol ydynt o aildroseddu ac unrhyw anghenion sy'n gysylltiedig â'u troseddu. Gwneir penderfyniadau'n lleol ar sut i ddefnyddio adnoddau er mwyn sicrhau canlyniadau o ran lleihau aildroseddu.
73. Fel rhan o'i ddull comisiynu seiliedig ar dystiolaeth, mae NOMS yn bwriadu targedu ymyriadau tuag at anghenion penodol grwpiau arbennig, gan gynnwys merched.

Cwestiwn 10: Sut allwn sicrhau bod y cynigion hyn, o ran eu perthnasedd i'r ystad ferched, yn cael eu hadlewyrchu'n gymesur ar draws yr ystad ferched ac yn adlewyrchu unrhyw anghenion penodol sydd gan ferched.

Rheoleiddio a Chraffu

74. Wrth gyflwyno polisi newydd ar sut y rheolwn oedolion ifanc yn y ddalfa, rydym eisiau sicrhau atebolrwydd dros ddarparu'r polisi. Rydym hefyd eisiau gwneud yn siŵr bod ffydd yn ein gallu i sicrhau bod oedolion ifanc yn cadw'r un warchodaeth a ddarperir, ym marn rhanddeiliaid, gan ystad 18-20 ar wahân a'r dedfrydau o DYOI a charchar am oes. Rydym yn glir nad ydym eisiau tynnu gwasanaethau na gwarchodaeth oddi ar oedolion ifanc, ond yn hytrach eu darparu mewn ffordd fwy effeithiol sy'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.
75. Ar hyn o bryd mae gan NOMS bolisiâu penodol ar gyfer rhai dan 18 oed sydd yn y ddalfa ar ffurf Cyfarwyddyd Gwasanaeth Carchardai, o'r enw '*The Care and Management of Young People*'. Mae hwn yn sicrhau bod staff yn glir ynghylch polisiâu ac arferion a sut ddylid rheoli pobl ifanc yn y ddalfa. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i wybod beth yw eich barn chi ynghylch sut i sicrhau bod rhanddeiliaid yn ffyddiog ein bod yn atebol am yr hyn a ddarparwn i oedolion ifanc, ac a fyddai dull tebyg yn briodol yn y sefyllfa yma.
76. Byddem hefyd yn awyddus i wneud yn siŵr bod yr hyn a weithredwn yn effeithiol, a'n bod yn parhau i gwrdd yn fwy effeithiol ag anghenion oedolion ifanc.

77. Rydym yn arbennig o awyddus i wybod beth yw barn yr Arolygiaeth a'r Byrddau Monitro Annibynnol ynghylch sut fydden nhw'n hoffi gweld polisi newydd yn cael ei reoleiddio, a pha fesurau fydden nhw'n eu cymryd i graffu ar ei ddarparu, yn enwedig o ran sicrhau profiadau carchar diogel a chynhyrchiol i oedolion iau a hŷn mewn sefydliadau cymysg.

Cwestiwn 11: A oes unrhyw fesurau ychwanegol y dylai'r Arolygiaethau neu'r cyrff monitro eu hystyried os gweithredwn y polisi newydd hwn?

Casgliadau

78. Er cymhlethdod y cam datblygu hwn, mae gan oedolion ifanc yn y ddalffa, fel oedolion eraill, anghenion sy'n seiliedig ar y gwahaniaeth rhyngddynt fel unigolion, ar eu profiadau gwahanol ac ar ddifrifoldeb y troseddau y maent wedi eu cyflawni. Ni theimlwn fod yr anghenion hyn yn cael eu cwrdd orau drwy ddyrannu oedolion ifanc i sefydliad dim ond am eu bod rhwng 18-20 oed. Credwn y gallwn gwrdd ag anghenion datblygu oedolion ifanc yn well drwy eu dyrannu i sefydliadau gydag amgylchedd carchar sy'n fwy addas i ddelio ag anghenion risg ac adsefydlu'r unigolion hyn.
79. Mae oedolion ifanc yn grŵp arbennig o gydsyniol, a daeth yn gynyddol glir dros y blynyddoedd diweddar bod canoli nifer fawr o oedolion ifanc gyda'i gilydd yn gallu gwaethygu'r sefyllfa. Teimlwn y byddai symud ein ffocws i ffwrdd o reoli cyfundrefn sy'n seiliedig dim ond ar oed i un sy'n sicrhau bod oedolion ifanc yn y lle mwyaf addas i gyfrannu'n llwyddiannus at wasanaethau ailsefydlu ac adsefydlu yn eu helpu i ymatal yn well rhag troseddu a byw bywydau cynhyrchiol.
80. Yn ogystal â'r manteision y byddai dull newydd fel hwn yn ei gynnig i oedolion ifanc, mae gwneud y newidiadau hyn yn awr yn golygu y gallwn sicrhau bod oedolion ifanc yn elwa o'r agenda ddiwygiadau ehangach. Mae hwn yn gyfle na ddylid ei golli i greu fframwaith cyson ar gyfer rheoli oedolion ifanc a allai, ar yr un pryd, ddarparu'r llwyfan gorau i sicrhau eu bod yn elwa o garchardai adsefydlu a newidiadau arfaethedig eraill i wella gwasanaethau gadael carchar ar gyfer oedolion iau a hŷn fel ei gilydd.

Geirdaon

Asato, M.R., Terwillinger, R., Woo, J., Luna, B. (2010). White matter development in adolescence: Astudiaeth gan y DTI. *Cerebral Cortex*, 20, 2122-2131.

Criminal Justice Joint Inspectorate (2012): Transitions: An inspection of the transitions arrangements from youth to adult services in the criminal justice system.

HM Inspectorate of Prisons (2011), Report on an unannounced full follow-up inspection of HMYOI Lancaster Farms, 1–10 June 2011, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi.

HM Inspectorate of Prisons (2012): Report on an unannounced full follow-up inspection of HMYOI Brinsford, 1 – 11 November 2011, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi.

HM Inspectorate of Prisons (2013): Report on an unannounced full follow-up inspection of HMP/YOI Feltham (Feltham B –young adults), 18 – 22 March 2013, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi.

Bwrdd Monitro Annibynnol (2013): Adroddiad Blynyddol hyd at 31 Mawrth 2013. Bwrdd Monitro Annibynnol Carchardai Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Portland.

Keith, B et al (2006). *Report of the Zahid Mubarek Inquiry*. Swyddfa Llyfrfa Ei Mawrhydi: Llundain

Luna, B., Garver, K.E., Urban, T.A., Lazar, N.A. & Sweeney, J.A. (2004). Maturation of cognitive processes from late childhood to adulthood. *Child Development*, 75, 1357-1372.

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2013): Transforming Rehabilitation: a summary of evidence on reducing reoffending, Ministry of Justice Analytical Series.

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (2013): Transforming Rehabilitation: A Strategy For Reform Cyflwynwyd i'r Senedd ym mis Mai 2013.

Stewart, D. (2008). *The Problems and Needs of Newly Sentenced Offenders: Results from a National Survey*. Y Weinyddiaeth Cyfiawnder Research Series 16/08

Van der Put, C.E., Stams, G.J.J.M., Hoeve, M., Dekovic, M., Spanjaard, H.J.M., van der Laam, P.H. & Barnoski, R.P. (2012). Changes in the relative importance of dynamic risk factors for recidivism during adolescence. *International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology*, 56, 296-317.

Williams, K., Papadopoulou, V. a Booth, N. (2012) *Prisoners' childhood and family backgrounds*. *Canlyniadau Astudiaeth Hydredol Cohortau Carcharorion yr Arolwg Lleihau Troseddu Arolygu Carcharorion (SPCR)*. Cyfres Ymchwil 3/12 y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (2012): Youth to Adult Transitions Framework, Youth Justice Board for England and Wales.

Atodiad 1: Crynodeb o'r Data Allweddol ar Oedolion Ifanc yn y Ddalfa

Mae'r atodiad hwn yn rhoi trosolwg o nodweddion poblogaeth i unigolion 18 – 20 oed sy'n y ddalfa, gan gynnwys oedran, rhyw, ethnigrwydd, a thueddiadau poblogaeth rhwng 2004 a 2013.

Hefyd darperir data ar fathau o garchar i unigolion 18 - 20 oed, cyfran o garcharorion 18 – 20 oed sy'n cael eu lletya mewn llety un dynodiad neu lety denfydd deuol, a chyfraddau aildroseddu yn ôl oedran.

1. Nodweddion y Boblogaeth

Ar 30 Mehefin 2013, roedd 7.5% o'r boblogaeth garchardai yn bobl ifanc 18-20 oed.

Tabl 1:

	Dynion	Canran o garcharori on sy'n ddyonion	Merched	Canran o garcharori on sy'n ferched	Cyfanswm y Boblogaeth	Canran o'r Cyfanswm Poblogaeth
15–17	858	1.1%	8	0.2%	866	1.0%
18–20	6,084	7.6%	188	4.9%	6,272	7.5%
21+	73,047	91.3%	3,657	94.9%	76,704	91.5%
Cymru a Lloegr	79,989	100%	3,853	100%	83,842	100%

Ffynhonnell: Ystadegau Rheoli Troseddwy, Ionawr – Mawrth 2013, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder <https://www.gov.uk/government/publications/offender-management-statistics-quarterly-jan-mar-2013>

1. Mae'r data yma'n cyfeirio at bobl ifanc 15-17 oed a gedwir mewn Sefydliadau Troseddwy Ifanc i rai dan 18 oed ac nid yw'n cynnwys rhai a gedwir mewn mannau eraill o fewn yr ystad ddiogel i bobl ifanc.
2. Oherwydd cyfannu canrannau i un pwynt degol, efallai nad yw'r cyfansymiau'n dod i 100%.

Rhyw

Roedd y mwyafrif o garcharorion 18 – 20 oed yn ddyonion. Dim ond 3% o droseddwy 18-20 oedd yn ferched, i'w gymharu a 5% o gyfanswm poblogaeth y carchar.

Tabl 2:

Rhyw carcharorion 18 -20 oed, ar 30 Mehefin 2013, Cymru a Lloegr

Rhyw	Carcharorion 18 – 20 oed	Holl garcharorion
Gwryw	97.0%	95.0%
Benyw	3.0%	5.0%

Ffynhonnell: Ystadegau Rheoli Troseddwy, Ionawr – Mawrth 2013, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, 2013 <https://www.gov.uk/government/publications/offender-management-statistics-quarterly-jan-mar-2013>

Ethnigrwydd

64.1 % o droseddwyr 18-20 oed oedd yn Wyn i'w gymharu â 72.4% o gyfanswm poblogaeth y carchar. Roedd cyfran uwch o garcharorion 18 - 20 oed yn dod o ethnigrwydd cymysg neu Ddu/ Du neu Brydeinig na chyfanswm poblogaeth y carchar.

Tabl 3:**Ethnigrwydd carcharorion 18 -20 oed, o 30 Mehefin 2013, Cymru a Lloegr**

Ethnigrwydd hunan-gofnodedig	Carcharorion 18 – 20 oed	Holl garcharorion (18+ oed)
Gwyn	64.1%	72.4%
Cymysg	7.1%	3.8%
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	7.4%	7.7%
Du neu Ddu Prydeinig	17.3%	12.9%
Tsieineaidd neu Arall	1.5%	1.2%
Heb nodi	0.4%	0.2%
Heb ei gofnodi	2.2%	1.7%

Ffynhonnell: Ystadegau Rheoli Troseddwyr, Ionawr – Mawrth 2013, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, 2013


<https://www.gov.uk/government/publications/offender-management-statistics-quarterly-jan-mar-2013>

Tueddiadau yn y Boblogaeth

Mae'r nifer o unigolion 18 – 20 oed yn y carchar sy'n bwrw dedfrydau o garchar ac ar remand wedi cynyddu rhwng 2004 a 2009, ac wedi bod yn lleihau ers 2010. Mae nifer o garcharorion dros 21oed wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2004, gan ddod i uchafbwynt yn 2012 cyn lleihau ychydig yn 2013.

Ffigwr 1:

Nifer y troseddwy'r ar remand neu gyda dedfryd o garchar yn ôl grŵp oed, ar 30 Mehefin, 2004-2013



Ffynhonnell: Ystadegau Rheoli Troseddwy'r, Ionawr - Mawrth 2013, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder <https://www.gov.uk/government/publications/offender-management-statistics-quarterly-jan-mar-2013>

Ffynhonnell (data 2004): Ystadegau rheoli llwyth achosion troseddwy'r (blynyddol): 2008 a 2009 <https://www.gov.uk/government/publications/offender-management-caseload-statistics-annual-ns>

1: Yn cynnwys carcharorion ar remand, carcharorion a rhai nad ydynt yn droseddwy'r (mae'r categori hwn yn cynnwys gwladolion dramor sy'n cael eu cadw am reswm mewnffido a charcharorion sy'n cael eu cadw am droseddau sifil)

2. Poblogaeth remand a dedfrydu

Ar 30 Mehefin 2013, mae cyfran fwy o bobl ifanc 18-20 oed yn cael eu cadw ar remand na charcharorion hŷn. Roedd 20.1% o'r holl bobl ifanc 18-20 oed yn y carchar yn rhai ar remand o'i gymharu â 12.4% o garcharorion 21+ oed.

Tabl 4:

Y boblogaeth garchardai yn ôl grŵp oed a math o garcharu, ar 30 Mehefin 2013

Grŵp oed	Math o garcharu	Y boblogaeth garchardai 30 Mehefin 2013	
		Y boblogaeth garchardai 30 Mehefin 2013	Canran o'r boblogaeth garchardai
15-17	Ar remand	184	21.2
	Wedi eu dedfrydu	681	78.6
	Heb fod yn droseddol	1	0.1
	Cyfanswm	866	100.0
18-20	Ar remand	1,261	20.1
	Wedi eu dedfrydu	4,879	77.8
	Heb fod yn droseddol	132	2.1
	Cyfanswm	6,272	100.0
21+	Ar remand	9,526	12.4
	Wedi eu dedfrydu	65,353	85.2
	Heb fod yn droseddol	1,825	2.4
	Cyfanswm	76,704	100.0
Cymru a Lloegr	Ar remand	10,971	13.1
	Wedi eu dedfrydu	70,913	84.6
	Heb fod yn droseddol	1,958	2.3
	Cyfanswm	83,842	100.0

(1) Yn cynnwys gwladolion tramor a gedwir am resymau mewnffudo, a charcharorion a gedwir am droseddau sifil e.e. dangos dirmyg tuag at y llys.

Ffynhonnell: Ystadegau Rheoli Troseddwyr, Ionawr - Mawrth 2013, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder <https://www.gov.uk/government/publications/offender-management-statistics-quarterly-jan-mar-2013>

3. Sefydliadau carchar i bobl ifanc rhwng 18-20 oed

Dengys data rheoli gan NOMS ar gyfer 30 Mehefin 2013 fod 47.6% o bobl ifanc yn cael eu cadw mewn Sefydliadau Troseddwy'r Ifanc un dynodiad, a 51.9% mewn sefydliadau dynodiad deuol sydd wedi eu cymeradwyo i gadw oedolion ifanc a hŷn.

Tabl 5:

Y math o garchar ar gyfer carcharorion sy'n ddynion 18-20 oed yn yr ystad garchardai, ar 30 Mehefin 2013

Math o Sefydliad Troseddwy'r Ifanc / Carchar	Nifer y carcharorion 18-20 oed¹	Canran o'r holl garcharorion 18-20 oed²
Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Un dynodiad	2831	47.6%
Sefydliad Troseddwy'r Ifanc Dynodiad Deuol	3082	51.9%
Carchar Oedolion i Ddynion	27	0.4%
Cymru a Lloegr	5940	99.9%

Ffynhonnell: Data P-NOMIS gan NOMS.

1. Mae'r cyfanswm yn wahanol i'r boblogaeth garchardai gyfan o rai 18-20 oed oherwydd nad yw'n cynnwys merched ifanc nac oedolion ifanc yn yr ystad ddiogel i bobl ifanc ac mewn canolfannau symud mewnfudwyr.
2. Nid yw'r cyfanswm yn dod i 100% oherwydd cyfannu.
3. Mae'r ffigyrau hyn wedi eu casglu o systemau TG gweinyddol sydd, fel gydag unrhyw system gofnodi fawr, yn agored i wallau posibl wrth gofnodi a phrosesu data.

Ar sail cyfanswm y capasiti gweithredol ar 28 Mehefin 2013, roedd cyfradd feddiannu'r chwe Sefydliad Troseddwy'r Ifanc un dynodiad, yn ôl data o System Reoli NOMS, yn 84.0%. Mewn cyferbyniad, roedd y gyfradd feddiannu yn yr ystad garchardai gyfan yn 93.3%.¹⁴

Ffigyrau'r boblogaeth garchardai 2013 – bwletin misol

Ffynhonnell: <https://www.gov.uk/government/publications/prison-population-figures>


¹⁴ Mae un o'r chwe Sefydliad Troseddwy'r Ifanc un dynodiad yn cynnwys dau safle cyfagos i'w gilydd, un safle Sefydliad Troseddwy'r Ifanc yn cadw carcharorion 18-21 oed, a'r llall wedi'i gomisiynu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid i gadw rhai 15-18 oed. Dim ond ar gyfer y safle ar y cyd y mae data ar boblogaeth ar gael. Cyfanswm y capasiti gweithredol yw cyfanswm capasiti gweithredol pob carchar heb gymhwyso unrhyw 'ymylon'. Y capasiti gweithredol defnyddiadwy yw cyfanswm y capasiti gweithredol hwn, llai 'ymyl' weithredol o 2,000 lle. Mae'r ymyl weithredol yn adlewyrchu'r cyfyngiadau oherwydd bod angen darparu llety ar wahân ar gyfer dosbarthiadau gwahanol o garcharorion h.y. yn ôl rhyw, oed, categori diogelwch, statws euogfarn, asesiad risg cell sengl a hefyd oherwydd dosbarthiad daearyddol. Nid yw'r ymyl yma'n cael ei chymhwyso i is-setiau capasiti ac, felly, mae'r gyfradd feddiannu ar gyfer y Sefydliad Troseddwy'r Ifanc un dynodiad yn seiliedig ar gyfanswm y capasiti gweithredol heb gymhwyso unrhyw ymylon, fel y gellir cymharu'n uniongyrchol; yn yr achos hwn, defnyddiwyd cyfanswm y capasiti gweithredol hefyd i gyfrifo cyfradd feddiannu'r ystad garchardai gyfan

4. Cyfraddau aildroseddu ar gyfer rhai 18-20 oed

Mae unigolion 18 – 20 oed yn debygol iawn o aildroseddu. Cyfran aildroseddu wedi'i brofi i droseddwy'r sy'n oedolion yn gostwng gydag oedran. Ar sail data wedi'i brofi ar aildroseddu ar gyfer carcharorion wedi eu rhyddhau yn y 12 mis hyd at fis Medi 2011, mae 56.1% o rai 18-20 oed wedi aildroseddu, o'i gymharu â 45.6% o garcharorion 21+ oed a 46.9% o'r holl garcharorion dros 18 oed.

Ffigwr 2:

Ffigyrau aildroseddu wedi eu profi ar gyfer troseddwy'r iau a hŷn a ryddhawyd o'r carchar yn y 12 mis a ddaeth i ben ym Medi 2011, Cymru a Lloegr



Sylwer: Nid yw'r grŵp troseddwy'r yr ydym yn mesur aildroseddu ar eu cyfer yn cynrychioli'r holl droseddwy'r lle profwyd hyn. Mae troseddwy'r a ryddheir o'r carchar yn cael eu cyfateb i gronfa ddata Gyfrifiadurol Genedlaethol yr Heddlu ac nid yw'n bosibl cyfateb rhai o'r troseddwy'r hyn. Felly mae'r garfan yma o droseddwy'r wedi eu heithrio o fesur ffigyrau aildroseddu wedi eu profi.

Ffynhonnell: Bwletin Chwarterol Ystadegau Aildroseddu Wedi eu Profi, Hydref 2010 - Medi 2011, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

<https://www.gov.uk/government/publications/proven-re-offending-statistics-october-2010-to-september-2011>

Ffynonellau

Ystadegau Rheoli Troseddwyr, Ionawr – Mawrth 2013, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, 2013

<https://www.gov.uk/government/publications/offender-management-statistics-quarterly-jan-mar-2013>

Ystadegau rheoli llwyth achosion troseddwyr (blynyddol): 2008 a 2009

2008 a 2009

<https://www.gov.uk/government/publications/offender-management-caseload-statistics-annual-ns>

Ffigyrau'r boblogaeth garchardai 2013 – bwletin misol

<https://www.gov.uk/government/publications/prison-population-figures>

Bwletin Chwarterol Ystadegau Aildroseddu Wedi eu Profi, Hydref 2010 - Medi 2011, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

<https://www.gov.uk/government/publications/proven-re-offending-statistics-october-2010-to-september-2011>

Bwletin chwarterol diogelwch yn y ddalfa hyd at 31 Mawrth 2013, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, 2013

<https://www.gov.uk/government/publications/safety-in-custody-statistics>



Cyhoeddwyd gan y TSO (Y Llyfrfa) ac mae ar gael fel a ganlyn:

Ar-lein

www.tsoshop.co.uk

Post, ffôn, ffacs ac e-bost

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Archebion dros y ffôn/yhmoliadau cyffredinol 0870 600 5522

Archebu drwy'r Llinell Ffôn Seneddol 0845 7 023474

Archebion ffacs: 0870 600 5533

Ebost: customer.services@tso.co.uk

Ffôn testun: 0870 240 3701

Siop y Senedd

12 Bridge Street, Parliament Square,

Llundain SW1A 2JX

Archebion dros y ffôn / yhmoliadau cyffredinol: 020 7219 3890

Archebion ffacs: 020 7219 3866

Ebost: shop@parliament.uk

Y rhyngwrwyd: <http://www.shop.parliament.uk>

TSO@Blackwell ac asiantau achrededig eraill

ISBN 978-0-10-187332-1



9 780101 873321